# Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd: Diweddariad ar Gynnydd i'r Gweinidogion a Rhanddeiliaid, Mehefin 2025

Wedi'u sefydlu yn 2022, mae'r Unedau Tystiolaeth yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr polisi a dadansoddol ledled y llywodraeth i wella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig, er mwyn inni ddeall yn llawn y lefel a'r mathau o anghydraddoldebau yng Nghymru.

Mae'r Unedau Tystiolaeth yn cynnwys pedwar tîm:

- Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb,
- Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil
- Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd.
- Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o waith yr Unedau Tystiolaeth yn fwriadol drawsbynciol a chroestoriadol. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn cynnwys cymysgedd o ddadansoddwyr, gan gynnwys ystadegwyr ac ymchwilwyr cymdeithasol sy'n cyfrannu at y gwaith o lunio polisïau ar draws Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd yr Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb newydd ym mis Medi 2024 i gyflawni swyddogaethau ystadegol ac adrodd data'r Unedau Tystiolaeth, gan weithio ochr yn ochr â'r unedau eraill i ddarparu cymorth ystadegol i'w prosiectau.

Mae'r diweddariad i randdeiliaid hwn yn manylu ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn amlinellu blaenoriaethau yr Unedau Tystiolaeth ar gyfer 2025-26.

## Cynnwys:


Prosiectau a gwblhawyd yn 2024-25

Blaenoriaethau allweddol newydd neu sy'n parhau yn 2025-26

Atodiad A: Rhaglen Waith yr Unedau Tystiolaeth 2025-26

## Prosiectau a gwblhawyd yn 2024-25

***Ymchwil i edrych ar argymhellion y Tasglu Hawliau Pobl Anabl (Mehefin 2025)***

Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi bod yn gweithio gyda'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl i ystyried dau o argymhellion y Tasglu. Roedd y prosiect cyntaf yn edrych ar y cynllun presennol Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd sy'n cael ei gynnal ledled y DU, a'r syniad o gael cynllun ehangach neu wahanol i Gymru. Roedd yr ail brosiect yn edrych ar y syniad o sefydlu Canolfan Genedlaethol Byw'n Annibynnol i Gymru a sut y gallai weithredu. Cyhoeddwyd yr adroddiadau ym mis Mehefin 2025, ynghyd â'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft.  Roedd y prosiectau hyn yn treialu dull o gydgynhyrchu Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a bydd adroddiad o'r gwersi a ddysgwyd hefyd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

***Adolygiad o Ddata Cydraddoldeb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (Mehefin 2025)***

Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi adolygu Arolwg Cenedlaethol Cymru i asesu i ba raddau y mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gynrychioliadol o grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru ac y gellid ei ddefnyddio i edrych ar ganlyniadau yn eu cylch; a gwneud argymhellion ar sut i wella ansawdd a manylder data cydraddoldeb a gesglir mewn arolygon yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin. Mae'r Unedau Tystiolaeth hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer rhoi hwb i'r Arolwg Cenedlaethol a bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried maes o law.

***Adolygiad o Amrywiaeth yng Ngweithlu ac ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru (Mawrth 2025***)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau dau ddarn cysylltiedig o ymchwil; arolygon ar gyrff ac aelodau byrddau sector cyhoeddus yng Nghymru ac adolygiad o lenyddiaeth berthnasol ar amrywiaeth yn y sector cyhoeddus. Yr amcanion cyffredinol oedd: rhoi syniad o amrywiaeth byrddau cyhoeddus yng Nghymru ac edrych i weld a yw data ynghylch amrywiaeth aelodau bwrdd y sector cyhoeddus yn cael eu casglu'n effeithiol; a deall gwerth amrywiaeth mewn cyrff sector cyhoeddus a nodi rhwystrau a strategaethau priodol i gynyddu amrywiaeth mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ymysg gweithluoedd ac uwch reolwyr. Cyhoeddwyd yr Adolygiad o amrywiaeth yng ngweithlu ac ar fyrddau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ym mis Mawrth 2025.

***Adolygiad o Ffynonellau Data ac Allbynnau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2025)***

Pwrpas yr adolygiad hwn oedd gwella ymwybyddiaeth o ffynonellau ac allbynnau cydraddoldeb presennol a gedwir neu a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, a nodi'n systematig lle mae bylchau ar draws y sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb. Mae'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio i helpu i nodi gwelliannau pellach posibl wrth gasglu, adrodd a defnyddio data ar nodweddion gwarchodedig.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad o ffynonellau data ac allbynnau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025.

***Fframwaith Mesur Effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Rhagfyr 2024)***

Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil wedi parhau i ddarparu cymorth dadansoddol i'r Cynllun Gweithredu drwy gefnogi'r gwaith o ddiweddaru'r cynllun a sefydlu dull ar gyfer ei werthuso. Cyhoeddwyd Fframwaith Mesur Effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r adroddiad hwn yn nodi dull awgrymedig o ddatblygu fframwaith dangosyddion ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; ochr yn ochr â meysydd lefel uchel arfaethedig i'w mesur (y setiau allweddol o ffigurau ac ystadegau) a fydd yn cael eu hasesu'n rheolaidd i'n helpu i ddeall a yw'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth. Bydd y fframwaith mesur effaith yn cael ei ddefnyddio fel un o nifer o ffynonellau tystiolaeth i asesu a fu unrhyw newid wrth werthuso effaith gyffredinol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

***Asesiad gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (Tachwedd 2024)***

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics i gynnal asesiad gwerthusadwyedd i ddarparu argymhellion ar sut y dylid gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Cyhoeddwyd Asesiad gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru ym mis Tachwedd 2024. Mae'r adroddiad wedi cael ei ddefnyddio wrth lunio proses werthuso a gwaith sylfaen ar gyfer gwerthusiad effaith yn y dyfodol. Bydd y gwerthusiad yn helpu i benderfynu a yw'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn llwyddiannus ac yn cyflawni ei nodau arfaethedig o wella bywydau a phrofiadau pobl LHDTC+ yng Nghymru.

***Adroddiad Llesiant Cymru Pennod Cymru sy'n Fwy Cyfartal (Medi 2024)***

Mae'r adroddiad hwn yn coladu'r ystadegau cyhoeddedig ynglŷn â chydraddoldeb ar gyfer y bennod ar Gymru sy'n Fwy Cyfartal yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru, sy'n helpu i asesu cynnydd o ran y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae'n ffynhonnell allweddol a ddefnyddir gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru, dinasyddion a'r cyfryngau i ddeall tueddiadau a heriau sy'n wynebu Cymru, tra'n darparu data i Senedd Cymru ar gyfer craffu ar nodau perfformiad. Cyhoeddwyd Adroddiad Llesiant Cymru pennod Cymru sy'n Fwy Cyfartal 2024 ym mis Medi 2024.

## Blaenoriaethau allweddol newydd neu sy'n parhaus yn 2025-26

***Mesur, gwerthuso a chefnogi cynlluniau gweithredu cydraddoldeb***

Mae cynlluniau gweithredu cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn nodi ei dyheadau a chamau gweithredu sy'n cael blaenoriaeth i wella bywydau pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn. Maent yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Y Cynllun Hawliau Pobl Anabl
- Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Felly, un o brif flaenoriaethau'r unedau tystiolaeth ar gyfer 2025-26 yw parhau i gefnogi'r cynlluniau hyn gyda gweithgarwch dadansoddi a gwerthuso. Mae hyn yn cynnwys datblygu damcaniaethau newid, fframweithiau mesur, cynnal a chomisiynu gwerthusiadau, monitro ac adrodd. Byddwn yn defnyddio’r dystiolaeth hon i asesu sut mae’r cynlluniau yn cael eu cyflwyno ac a ydynt yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy’n arwain at y canlyniadau a ddymunir. Bydd dull cyson yn cael ei gymhwyso lle bo'n briodol, gan ystyried y Cynllun Gweithredu Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

***Gwella sylfaen dystiolaeth ystadegau cydraddoldeb***

Mae'r flaenoriaeth hon yn ceisio gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd data cydraddoldeb. Mae'n cynnwys llenwi unrhyw fylchau o ran mesur y blaenoriaethau craidd a nodir yn y cynlluniau cydraddoldeb uchod ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio gyda dadansoddwyr eraill Llywodraeth Cymru yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o Ffynonellau Data ac Allbynnau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn 2024/25 i archwilio cyfleoedd i sicrhau bod mwy o ddata cydraddoldeb ar gael
- Annog casglwyr data i gynhyrchu data cydraddoldeb manylach e.e. ymchwil sy'n archwilio opsiynau i hybu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Archwilio cysylltu data a defnyddio data gweinyddol e.e. prosiect i gynhyrchu dadansoddiad manylach o fylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd
- Holi ffynonellau presennol ar lefel fanwl i wella'r canfyddiadau ar gydraddoldeb e.e. ffynonellau data dyled.

***Prif ffrydio cydraddoldeb, cynhwysiant a chyfranogiad mewn ymchwil ac ystadegau***

Mae ein gwaith prif ffrydio yn cynnwys ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb drwy gydol y cylch ymchwil a datblygu arferion gorau o ran cwestiynau cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2025/26, mae hyn yn cynnwys:

- Parhau â'n gwaith i ddatblygu cwestiynau priodol ar sut y gellir casglu gwybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd, gyda NatCen wedi'i gomisiynu i gyflawni'r gwaith. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall effaith polisïau ar bobl anabl, a sut y gall polisïau leihau neu ddileu rhwystrau i bobl â chyflyrau iechyd. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad dros dro yn ystod Gwanwyn 2025.
- Datblygu canllawiau mewnol ymhellach ar gyfer dadansoddwyr Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chasglu data cydraddoldeb, cwmpasu ymchwil i ystyried cydraddoldeb ac adrodd.
- Datblygu strategaeth ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar draws sectorau yng Nghymru ac ymgymryd â phrosiect i ddeall yr elfennau sy'n rhwystro ac yn galluogi casglu ac adrodd ar ddata cydraddoldeb,
- Cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd yn dilyn ein gwaith gyda chadeiryddion y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, lle cawsant eu gwahodd i brofi dull o gyd-gynhyrchu a chyflawni ymchwil ochr yn ochr â dadansoddwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i helpu i lywio sut y gall dadansoddwyr a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.

***Cynhyrchu a rhannu ymchwil cydraddoldeb a phrofiad bywyd***

Rhaglen waith i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar rwystrau rhag cyflogaeth i bobl anabl. Mae hyn yn cynnwys dau brosiect craidd a chefnogaeth tystiolaeth ad-hoc.

Y prosiect cyntaf yw adolygu tystiolaeth a gyhoeddwyd ers adroddiad Drws ar Glo 2021 ar rwystrau rhag cyflogaeth a 'beth sy'n gweithio' wrth fynd i'r afael â nhw. Mae gwaith ar y prosiect hwn ar y gweill ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau cyn diwedd 2025. Yr ail brosiect 'craidd' yw arolwg o fentrau bach a chanolig yng Nghymru, a fydd yn mesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogwyr o faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr anabl. Comisiynwyd cwestiynau ar gyfer y prosiect hwn ar Arolwg Omnibws Busnes y Gwanwyn 2025 a gyflawnwyd gan Beaufort. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru erbyn hydref 2025.

Ynghyd â chymorth dadansoddol ad-hoc ar draws meysydd polisi cyflogaeth, bydd y rhaglen waith hon yn helpu i wella'r dystiolaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogaeth pobl anabl, gan dynnu sylw at feysydd blaenoriaeth i fynd i'r afael â nhw a llywio cyfeiriad ymyriadau cysylltiedig.

***Cyfuno a dosbarthu tystiolaeth cydraddoldeb presennol***

Mae hyn yn cynnwys coladu ystadegau cydraddoldeb cyhoeddedig ar gyfer y bennod Cymru sy'n Fwy Cyfartal yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru fel bod rhanddeiliaid, dinasyddion a'r cyfryngau yn deall tueddiadau a heriau sy'n wynebu Cymru. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi proses

gyllideb 2025/26 Llywodraeth Cymru drwy gasglu tystiolaeth cydraddoldeb i ddeall effeithiau penderfyniadau am y gyllideb ar grwpiau cydraddoldeb fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

***Dylanwadu ar ddatblygiadau methodolegol o ran casglu ac adrodd ar ddata cydraddoldeb.***

Cysylltu'n agos â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ac adrannau eraill y llywodraeth i gyfrannu at ddatblygiad parhaus y dirwedd tystiolaeth cydraddoldeb a pharhau i'w datblygu. Mae hyn yn cynnwys (ymysg pethau eraill) gwaith datblygu'r Cyfrifiad yn y dyfodol, ffrydiau gwaith cysoni GSS, Dyfodol Ystadegau Poblogaeth a Mudo (FPMS) a thrawsnewid yr Arolwg o'r Llafurlu gan sicrhau bod anghenion data Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ffynonellau a diffiniadau data cydraddoldeb.

## Rhaglen Waith yr Unedau Tystiolaeth 2025-26

**Mae Atodiad A** yn darparu rhestr lawn o'r prosiectau y mae'r Unedau Tystiolaeth yn bwriadu gweithio arnynt rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mehefin 2026. Mae'r rhain wedi'u llywio gan anghenion polisi fel rhan o'r broses gynllunio tystiolaeth ar draws y pedair Uned Dystiolaeth.

## Atodiad A: Rhaglen Waith yr Unedau Tystiolaeth 2025-26

| **Prosiect** | **Nod** | **Tîm(au)** | **Cyhoeddi/ cwblhau** |
|---|---|---|---|
| Gwerthusiad o Broses ac Effaith Gynnar Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Deall a yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cael ei weithredu'n effeithiol ac a ellir ei wella. Casglu data sylfaenol i'w defnyddio mewn gwerthusiad o'r effaith yn y dyfodol | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil | Prosiect aml-flwyddyn i'w gomisiynu yn haf 2025. |
| Dangosfwrdd ac adrodd metrig Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Delweddu ac adrodd data ar ddangosyddion fframwaith mesur Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil | Yn dilyn comisiynu gwerthusiad o'r broses |
| Prosiectau profiad bywyd o ran hil | Casglu data ansoddol ar brofiadau bywyd pobl yng Nghymru a'u profiadau ar wahanol bynciau sy'n gysylltiedig â Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil | Hydref 2025 |
| Adolygiad Cyfrif Carafannau | Adolygu'r trefniadau casglu data ar-lein presennol ar gyfer carafannau, lleiniau a safleoedd Sipsiwn a Theithwyr; a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir gwella'r broses casglu data / cyfres ystadegol i ddiwallu anghenion polisi ac awdurdodau lleol yn well | Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb | Gaeaf 2025 |
| Theori Newid y Cynllun Hawliau Pobl Anabl | Amlinellu'r broses arfaethedig y bydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn ei dilyn i gyflawni'r canlyniadau a chefnogi gwerthusiad dilynol o'r cynllun | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Gwanwyn 2026 |
| Fframwaith mesur heb ei boblogi ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl | Cyflwyno'r dangosyddion lefel uchel ar gyfer canfod gwybodaeth am gyfeiriad teithio a chynnydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Gwanwyn 2026 |
| Gwerthuso proses ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl | Asesu gweithrediad cynnar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, gan nodi canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ac unrhyw feysydd i'w gwella. | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Prosiect aml-flwyddyn, i'w gomisiynu yn 2026. |

| Prosiect | Nod | Tîm(au) | Cyhoeddi/ cwblhau |
|---|---|---|---|
| Adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch rhwystrau rhag cyflogaeth i bobl anabl | Adolygu tystiolaeth ar y rhwystrau rhag cyflogaeth i bobl anabl a'r 'beth sy'n gweithio' o ran mynd i'r afael â nhw | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Gaeaf 2025 |
| Arolwg Cyflogwyr – Recriwtio a chadw gweithwyr anabl | Deall canfyddiadau a dealltwriaeth cyflogwyr ynghylch pobl anabl mewn cyflogaeth | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Hydref 2025 |
| Datblygu cwestiynau priodol ar gyfer sut y gellir casglu gwybodaeth am y Model Cymdeithasol | Datblygu cyfres o gwestiynau, opsiynau ymateb, a chanllawiau sy'n adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, er mwyn ymgorffori ymchwil gymdeithasol yn y dyfodol a sicrhau dull gweithredu safonol a chyson. | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd | Adroddiad interim ac adolygiad o lenyddiaeth Haf 2025 Adroddiad terfynol yn Haf 2026 |
| Gwerthusiad o Broses ac Effaith Gynnar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Deall a yw Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael ei weithredu'n effeithiol ac a ellir ei wella. Casglu data sylfaenol i'w defnyddio mewn gwerthusiad o'r effaith yn y dyfodol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2027 |
| Fframwaith mesur heb ei boblogi ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Cyflwyno'r dangosyddion lefel uchel ar gyfer canfod gwybodaeth am gyfeiriad teithio a chynnydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Gaeaf 2026 |
| Canllawiau ar gasglu data rhyw, rhywedd a hanes traws | Cysoni'r broses o gasglu data rhyw, rhywedd a hanes traws | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Gaeaf 2026 |
| Fframwaith mesur heb ei boblogi ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol | Fframwaith ar gyfer dangos cynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Gwanwyn/Haf 2026 |
| Adolygiad o'r Grantiau Ymwybyddiaeth ac Arloesedd Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Deall a yw'r newidiadau i'r Grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn helpu'r rhai sy'n derbyn grantiau i gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi grwpiau cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2027 |
| Crynodeb mewnol o dystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer dyraniad cyllideb | Llywio'r broses gyllideb trwy dynnu sylw at effeithiau penderfyniadau cyllideb ar gydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2025 |

| **Prosiect** | **Nod** | **Tîm(au)** | **Cyhoeddi/ cwblhau** |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Llesiant Cymru: y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal | Casglu ystadegau cydraddoldeb cyhoeddedig ar gyfer y bennod Cymru sy'n Fwy Cyfartal yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru sy'n ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd ym mhob un o'r Dangosyddion Cenedlaethol | Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb | Gaeaf 2026 |
| Archwilio data dyled | Ymchwilio i ffynonellau data perthnasol ac edrych ar ddichonoldeb coladu a chyhoeddi data ar ddyled yng Nghymru, wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig | Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb | Gwanwyn 2026 |
| Ffynonellau Data ac Allbynnau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn 2024/25: trafod gwelliannau gyda dadansoddwyr | Sicrhau bod canfyddiadau allweddol erthygl ystadegol yn cael eu dosbarthu a hyrwyddo, annog ac adlewyrchu gwelliannau parhaus i allbynnau ystadegol Llywodraeth Cymru | Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb | Parhaus |
| Treialu Samplu dan arweiniad Ymatebwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol | Ymchwilio i weld sut y gall Arolwg Cenedlaethol Cymru gynhyrchu canlyniadau manwl ar grwpiau cydraddoldeb a llenwi bylchau ar y Fframweithiau Mesur ar gyfer y gwahanol Gynlluniau Gweithredu cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil | Parhaus trwy gydol cyfnod y contract |
| Adolygiad o'r Arolwg Cenedlaethol: gwaith dadansoddi cyfun | Dadansoddi data Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ystyried dichonoldeb defnyddio data cyfun i lunio amcangyfrifon cadarn yn ôl nodweddion cydraddoldeb. | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2025 |
| Rôl gynghori: Manylion y bylchau cyflog ym maes Ethnigrwydd ac Anabledd | Ystyried a oes modd casglu a chyhoeddi data ar y bwlch cyflog ar gyfer nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig gwahanol ar lefel fanylach na'r hyn a gyhoeddir ar hyn o bryd, a sut y gellid gwneud hynny | Uned Datblygu Ystadegau Cydraddoldeb | Gwanwyn 2026 |
| Gwersi a ddysgwyd drwy gydgynhyrchu | Deall gwersi a ddysgwyd o dreialu cydgynhyrchu ymchwil gyda phobl anabl yn y llywodraeth | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Gwanwyn 2026 |

| Prosiect | Nod | Tîm(au) | Cyhoeddi/ cwblhau |
|---|---|---|---|
| Canllawiau ar gyfer ymchwil cwmpasu i brif ffrydio cydraddoldeb ar draws Llywodraeth Cymru | Adolygiad o'r ffordd y mae sefydliadau'n ymgorffori prif ffrydio cydraddoldeb ledled eu sefydliadau i gefnogi strategaethau/cynlluniau gweithredu cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2025 |
| Ffactorau sy'n rhwystro ac sy'n galluogi'r broses o gasglu ac adrodd ar ddata cydraddoldeb | Deall y ffactorau sy'n rhwystro ac sy'n galluogi dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru i gasglu data cydraddoldeb er mwyn nodi meysydd i wella | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Gaeaf 2026 |
| Canllawiau – iaith gynhwysol wrth adrodd dadansoddiadau | Canllawiau i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru fel y gallant gyfeirio'n briodol at grwpiau cydraddoldeb a thrafod grwpiau cydraddoldeb yn eu hallbynnau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Haf 2025 |
| Datblygu strategaeth ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar draws sectorau | Gwella cysondeb ac ymgorffori cydraddoldeb mewn ymchwil ar draws sectorau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb | Hydref 2025 |